Llywodraeth Cymru
Welsh Government

**Rhif: WG44024**

Llywodraeth Cymru

## Ymgynghoriad – crynodeb o'r ymatebion

# Fframwaith Triniaeth Camddefnyddio Sylweddau: Atal, Diagnosis, Triniaeth a Chymorth ar gyfer Niwed i'r Ymennydd sy'n Gysylltiedig ag Alcohol

Rhagfyr 2021

Mae'r ddogfen yma hefyd ar gael yn Saesneg.

This document is also available in English.

OGL © Hawlfraint y Goron ISBN ddigiol 978-1-80391-398-8

## Trosolwg

Roedd yr ymgynghoriad yn gofyn am farn ar y fframwaith drafft, a oedd yn edrych ar ffyrdd o atal ARBD a thriniaeth ar gyfer y bobl hynny sydd wedi'u heffeithio gan y cyflwr. Mae'r crynodeb hwn yn rhoi trosolwg o'r themâu a atgyfnerthwyd drwy'r ymatebion i'r ymgynghoriad. Mae'r fframwaith wedi'i ddiweddaru i gynnwys y sylwadau a dderbyniwyd a bydd yn cynorthwyo cynllunwyr a darparwyr iechyd a gofal cymdeithasol i gynllunio a darparu gwasanaethau o safon ar gyfer ARBD.

## Camau i'w Cymrydd

Mae'r ddogfen hon er gwybodaeth yn unig.

## Rhagor o wybodaeth a dogfennau cysylltiedig

Mae fersiynau print bras, Braille ac iaith amgen o'r ddogfen hon ar gael ar gais.

## Manylion cyswll

I gael rhagor o wybodaeth:

Polisi Camddefnyddio Sylweddau
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhydycar
Merthyr Tudful
CF48 1UZ

Ebost: substance.misuse@gov.wales

### Copïau Ychwanegol

Cyhoeddir y crynodeb hwn o'r ymateb a chopïau o'r holl ddogfennau ymgynghori ar ffurf electronig yn unig a gellir eu gweld ar wefan Llywodraeth Cymru.

Linc i'r dogfennau ymgynghori: Fframwaith trin camddefnyddio sylweddau: niwed i'r ymennydd yn gysylltiedig ag alcohol | LLYW.CYMRU

**Adroddiad Cryno ar yr Ymgynghoriad ar y Fframwaith Cymorth a Thriniaeth ar Atal, Diagnosis, Triniaeth a Chymorth ar gyfer Niwed i'r Ymennydd sy'n Gysylltiedig ag Alcohol**

## Cynnwys


1. Cyflwyniad ..... 1
2. Cyd-destun ..... 1
3. Strwythur y Fframwaith ..... 1
4. Ymgysylltu Cyn Ymgynghori ..... 2
5. Ymgynghori ..... 3
6. Crynodeb o'r ymatebion ymgynghori ..... 3
7. Canfyddiadau Allweddol ..... 4

## 1. Cyflwyniad

Gofynnodd yr ymgynghoriad am safbwyntiau ar y ‘Fframwaith Cymorth a Thriniaeth ar Atal, Diagnosis, Triniaeth a Chymorth ar gyfer Niwed i’r Ymennydd sy’n Gysylltiedig ag Alcohol’ (ARBD) (y “fframwaith”). Bwriedir y fframwaith ar gyfer cynllunwyr gwasanaethau, comisiynwyr, darparwyr camddefnyddio sylweddol ac iechyd a gofal cymdeithasol ehangach sy’n gweithio gyda defnydd alcohol problemus a oedd yn bodoli eisoes.

## 2. Cyd-destun

Yn rhan o’r agenda polisi camddefnyddio sylweddau, mae Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi dogfennau polisi a chanllawiau fel mater o drefn, gan ddosbarthu’r wybodaeth hon trwy dudalennau Camddefnyddio Sylweddau gwefan Llywodraeth Cymru a rhanddeiliaid. Defnyddir Fframweithiau Trin Camddefnyddio Sylweddau (SMTFs) i gynnig cyfarwyddyd ac fel deunyddiau cyfeirio i leihau’r niweidiau a achosir gan gamddefnyddio sylweddau.

Term ambarél yw ARBD a ddefnyddir i ddisgrifio sbectrwm o gyflyrau a briodweddir gan nam gwybyddol cronig oherwydd newidiadau i strwythur a gweithrediad yr ymennydd a briodolir i ddefnydd gormodol o alcohol dros amser.

Yn dilyn pryder cynyddol a chyhoeddi nifer o ddogfennau allweddol a gyhoeddwyd yn tynnu sylw at y problemau yng Nghymru, amlinellodd Cynllun Cyflawni ar gyfer Camddefnyddio Sylweddau 2016-18 Llywodraeth Cymru a’r Cynllun Cyflawni ar gyfer Camddefnyddio Sylweddau 2019-22 mwy diweddar gamau penodol i godi ymwybyddiaeth, i wella hyfforddiant, addysg a diagnosis, a sefydlu llwybrau eglur ar gyfer atgyfeiriadau i driniaeth.

## 3. Strwythur y Fframwaith

Mae’r fframwaith wedi’i strwythuro fel a ganlyn:

- Crynodeb Gweithredol.
- Cefndir.
- Addysg, codi ymwybyddiaeth, hyfforddiant a datblygu’r gweithlu.
- Atal ARBD ymhlith poblogaethau uchel eu risg.
- Nodi cynnar.
- Asesu a diagnosis.
- Llwybrau ar gyfer Asesu a Thriniaeth.
- Darpariaeth o driniaeth a chymorth.
- Cymorth i gleifion ARBD nad ydynt yn ymatal.
- Monitro, goruchwyliaeth, gwerthuso a chydweithrediad DU gyfan.
- Cyfeiriadau.

## 4. Ymgysylltu Cyn Ymgynghori

I oruchwylio datblygiad yr SMTF ar gyfer ARBD, sefydlwyd Bwrdd Prosiect yn 2015 a sefydlwyd gweithgor ARBD clinigol o aelodaeth y Bwrdd Prosiect.

O ystyried natur arbenigol ARBD, comisiynwyd Iechyd Cyhoeddus Cymru i ddatblygu'r SMTF, gyda chymorth gweithwyr proffesiynol eraill sydd wedi cyfrannu at wahanol benodau'r fframwaith. Roedd y rhain yn cynnwys:

- Meddyg, Grŵp Ymchwil i Gaethiwed, Prifysgol De Cymru a Chanolfan yr Ymennydd a'r Meddwl, Prifysgol Sydney, Awstralia;
- Athro Seicoleg, Grŵp Ymchwil i Gaethiwed, Prifysgol De Cymru;
- Athro Caethiwed a Seicoleg Iechyd, Grŵp Ymchwil i Gaethiwed, Prifysgol De Cymru;
- Cyfarwyddwr, Arweinydd Thema Grŵp Ymchwil i Alcohol a Thrais, Ymchwil Clinigol Cymhwysol ac Iechyd Cyhoeddus Coleg y Gwyddorau Biofeddygol a Bywyd yr Ysgol Ddeintyddiaeth, Prifysgol Caerdydd. Cyd-gyfarwyddwr, Sefydliad Ymchwil Trosedd a Diogelwch, Prifysgol Caerdydd;
- Seiciatrydd Ymgynghorol yn arbenigo mewn Seiciatreg Caethiwed a Seiciatreg Oedolion Cyffredinol â diddordeb arbennig mewn Niwroseiciatreg, Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf ac Athro Gwadd, Prifysgol De Cymru;
- Seiciatrydd Caethiwed Ymgynghorol ac Arweinydd Clinigol, Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan ac Athro Gwadd Prifysgol De Cymru; a
- Phennaeth Camddefnyddio Sylweddau, Iechyd Cyhoeddus Cymru.

Daw'r dystiolaeth yn y ddogfen hon o amrywiaeth o ffynonellau gan gynnwys cronfeydd data llyfryddiaethol, gohebiaeth bersonol ag academyddion ARBD blaenllaw, digwyddiadau casglu tystiolaeth a chyfweliadau â hysbyswyr allweddol. Roedd y ffynonellau cronfa ddata a gwefan yn cynnwys MEDLINE, MEDLINE Daily Update, AMED, BNI ac EMBASE. Roedd y gwefannau yn cynnwys NICE, yr Asiantaeth Diogelu Iechyd, Llywodraeth Cymru a'r Adran Iechyd.

### Dull Trawslywodraethol

Ceir pwyslais ar ymwreiddio camddefnyddio sylweddau ar draws amrywiaeth o raglenni a chynlluniau eraill Llywodraeth Cymru. Er enghraifft, bydd cydweithio agos yn parhau gyda meysydd Iechyd Meddwl, Addysg, Plant a Theuluoedd, Cyflogadwyedd, Tai, Gwasanaethau Cymdeithasol, Trechu Tlodi a Throsedd a Chyfiawnder i gryfhau cysylltiadau â'r meysydd hyn.

Mae'r Cynllun Cyflawni ar gyfer Camddefnyddio Sylweddau 2019-22 yn cefnogi un o themâu allweddol 'Ffyniant i Bawb: y strategaeth genedlaethol' sef gwella iechyd a llesiant yng Nghymru, i unigolion, teuluoedd a chymunedau, gan ein helpu i wireddu ein huchelgais o ffyniant i bawb trwy gymryd camau sylweddol i newid ein dull o driniaeth i atal.

Hefyd, mae'r weledigaeth a'r egwyddorion a gyflwynir yn 'Cymru Iachach: ein Cynllun Iechyd a Gofal Cymdeithasol' yn berthnasol i'r fframwaith hwn.

## 5. Ymgynghori

Lansiwyd ymgynghoriad chwe wythnos ar 'Fframwaith Cymorth a Thriniaeth ar Atal, Diagnosis, Triniaeth a Chymorth ar gyfer Niwed i'r Ymennydd sy'n Gysylltiedig ag Alcohol' drafft Llywodraeth Cymru ar 11 Chwefror 2021 a daeth i ben ar 25 Mawrth 2021. Mae testun llawn yr ymgynghoriad ar gael yn:

Fframwaith trin camddefnyddio sylweddau: niwed i'r ymennydd sy'n gysylltiedig ag alcohol | LLYW.CYMRU

Mae'r ddogfen hon yn cynnig crynodeb o'r ymatebion ymgynghori a dderbyniwyd drwy'r ymgynghoriad ar-lein.

- **Derbyniwyd cyfanswm o 11 o ymatebion a chyflwynwyd pob un ohonynt fel ymatebion ymgynghori ar-lein.**
- **Dewisodd 1 ymatebwr aros yn ddienw.**
- **Nodwyd pob un o'r 11 ymateb fel ymateb gan sefydliad, felly ni nodwyd bod unrhyw ymatebion gan unigolyn.**

## 6. Crynodeb o'r ymatebion ymgynghori

Cynhaliwyd dadansoddiad thematig o'r 11 ymateb. Roedd yr ymgynghoriad yn cynnwys pedwar cwestiwn allweddol:

**C1** Bwriad y Fframwaith hwn yw hysbysu a chynorthwyo cynllunwyr a darparwyr iechyd a gofal cymdeithasol i ddylunio a darparu gwasanaethau atal a thrin cynaliadwy, teg ac o ansawdd da ar gyfer y rhai sydd mewn perygl o Niwed i'r Ymennydd sy'n Gysylltiedig ag Alcohol. A fyddech chi'n cytuno bod y Fframwaith yn gwneud hyn?

**C3** A ydych chi'n cytuno bod yr argymhellion, fel y'u cynigir, yn addas i'r diben a bod modd eu cyflawni?

**C5** A ydych chi'n gweld unrhyw heriau darparu gwasanaeth o ran gwireddu unrhyw un o'r argymhellion?

**C7** Yn eich barn chi, a yw'r Fframwaith arfaethedig yn cysylltu yn dda â meysydd polisi a gwasanaeth perthnasol eraill?

Mae'n amlwg o'r gwerthusiad o'r ymatebion bod mwyafrif y rhai a ymatebodd i'r ymgynghoriad ar-lein naill ai'n cytuno neu'n cytuno yn rhannol â'r cwestiynau (gweler **Tabl 1**).

**Tabl 1 – Ymatebion – cwestiynau ymgynghori allweddol**

| | Byddwn/Ydw/ Ydy | Yn rhannol | Na fyddwn/ Nac ydw/Nac ydy | Dim Ymateb |
|---|---|---|---|---|
| **Cwestiwn 1** | 5 (46%) | 4 (36%) | 0 | 2 (18%) |
| **Cwestiwn 3** | 2 (18%) | 7 (64%) | 0 | 2 (18%) |
| **Cwestiwn 5** | 5 (46%) | 4 (36%) | 0 | 2 (18%) |
| **Cwestiwn 7** | 7 (64%) | 2 (18%) | 0 | 2 (18%) |

Yn ogystal â chael yr atebion uchod, roedd hefyd yn hanfodol bwysig cael mwy o wybodaeth am yr atebion a roddwyd. Dilynwyd pob cwestiwn gydag is-gwestiwn felly, yn gofyn i unigolion esbonio eu hateb yn fwy manwl. Caniataodd hyn i sylwadau penodol gael eu cymryd i ystyriaeth yn y fframwaith terfynol a gyhoeddwyd ochr yn ochr â'r adroddiad cryno hwn.

## 7. Canfyddiadau Allweddol

**Cwestiynau 1 a 2 – A yw'r Fframwaith hwn yn hysbysu ac yn cynorthwyo cynllunwyr a darparwyr iechyd a gofal cymdeithasol i ddylunio a darparu gwasanaethau atal a thrin cynaliadwy, teg ac o ansawdd da ar gyfer ARBD.**

O'r 11 o ymatebwyr, ni roddwyd unrhyw ymateb gan ddau ohonynt a dywedodd naw eu bod naill ai'n cytuno neu'n cytuno yn rhannol fod y Fframwaith yn gwneud hyn. Roedd y prif themâu a ddaeth i'r amlwg yn ymwneud â hyfforddiant a chodi ymwybyddiaeth cenedlaethol posibl.

> Rydym yn credu bod y fframwaith ei hun yn realistig (yn ddamcaniaethol) ac yn uchelgeisiol. Nid oes dim yr ydym yn anghytuno ag ef yn y fframwaith a chawsom ein calonogi bod cyfeiriadau at lawer o'r pethau ar ein 'rhestr ddymuniadau' ar gyfer ARBD yn y ddogfen eisoes. **Barod #4**
>
> Mae Coleg Nyrsio Brenhinol Cymru yn cytuno mewn egwyddor y bydd y fframwaith yn cynorthwyo cynllunwyr a darparwyr iechyd a gofal cymdeithasol…Dylai'r fframwaith geisio ymhelaethu ar ei uchelgais i gynyddu ymwybyddiaeth o ARBD trwy gynnig cyfleoedd addysgol i'r gweithlu… **Coleg Nyrsio Brenhinol Cymru #7**

**Cwestiynau 3 a 4 – A ydych chi'n cytuno bod yr argymhellion, fel y'u cynigir, yn addas i'r diben a bod modd eu cyflawni?**

O'r 11 o ymatebwyr, ni roddwyd unrhyw ymateb gan ddau ohonynt a dywedodd naw eu bod naill ai'n cytuno neu'n cytuno yn rhannol â'r argymhellion arfaethedig. Roedd thema gref eto o ran gofynion hyfforddi, a nodwyd darparu adnoddau a gweithredu fel meysydd eraill o her posibl hefyd.

Rydym yn cytuno yn gryf gyda'r argymhellion a restrir o dan 'Llwybr Gofal Clinigol' yn arbennig. Mae'r syniad o ymgyrch a'r gwahanol lefelau o hyfforddiant a amlinellir yn y ddogfen yn ystyrlon ac yn cael eu cyflwyno yn briodol. Rydym yn cytuno â'r dull o ddychwelyd i agweddau sylfaenol o ran yr hyfforddiant. Mae atgoffâd o Arwyddion a Symptomau ARBD yn bwysig iawn… Rydym yn credu bod modd cyflawni'r argymhellion dim ond cyn belled ag y bo'r cyllid yno i'w cynorthwyo. Mae comisiynu a monitro contractau cryf y tu ôl i bob un o'r argymhellion yn hanfodol. **Barod #4**

Ceir rhannau penodol o'r ddogfen y gellid eu rhoi ar waith o fewn gwasanaethau presennol fel ymwybyddiaeth, hyfforddiant a chanfod cynharach. Byddai pryderon wedyn os nad yw'r gwasanaethau wedi eu trefnu neu eu paratoi i ymdrin â'r cynnydd anochel i nifer yr atgyfeiriadau. **Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr #6**

**Cwestiynau 5 a 6 – A ydych chi'n gweld unrhyw heriau darparu gwasanaeth o ran gwireddu unrhyw un o'r argymhellion?**

O'r 11 o ymatebwyr, ni roddwyd unrhyw ymateb gan ddau ohonynt a dywedodd naw eu bod naill ai'n cytuno neu'n cytuno yn rhannol y gallai fod heriau darparu gwasanaeth posibl, a daeth gweithredu i'r amlwg fel thema eto.

Byddai hwn yn wasanaethau cadarnhaol ac yn ddisgwyliad cyffrous, y mae wir ei angen, ceir newidiadau y gellid eu gwneud yn gyflym…fodd bynnag, byddai sicrhau bod yr argymhellion llawn yn cael eu cyflawni yn gofyn am ragor o waith o ran pwy a sut y byddai'n cael ei gomisiynu a'i weithredu… **Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr #6**

…bydd angen cwmpasu i weld a ellid cyflawni'r argymhellion trwy gapasiti presennol i ddeall unrhyw heriau posibl i weithrediad. **Bwrdd Cynllunio Ardal Cwm Taf Morgannwg #3**

**Cwestiynau 7 ac 8 – Yn eich barn chi, a yw'r Fframwaith arfaethedig yn cysylltu yn dda â meysydd polisi a gwasanaeth perthnasol eraill?**

O'r 11 o ymatebwyr, ni roddwyd unrhyw ymateb gan ddau ohonynt a dywedodd naw eu bod naill ai'n cytuno neu'n cytuno yn rhannol bod y Fframwaith yn cysylltu yn dda â meysydd polisi a gwasanaeth eraill. Prin oedd y sylwadau penodol a wnaed mewn ymateb i'r cwestiwn hwn, ond adlewyrchwyd mân awgrymiadau ac arsylwadau yn argymhellion ehangach y fframwaith terfynol, lle bo'n briodol.

Wrth godi ymwybyddiaeth o ARBD a natur yfed trwm, gallai fod yn ddefnyddiol cysylltu â neges iechyd cyhoeddus ehangach ynghylch ac alcohol a gweithredu gwybyddol a allai atseinio mwy ymhlith pobl ifanc. **Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro #11**

**Cwestiynau 9 a 10 - roedd y rhain yn gofyn am safbwyntiau ar yr effeithiau y byddai'r fframwaith yn eu cael ar y Gymraeg a pha un a oedd yr ymatebwyr yn teimlo y gallai'r fframwaith gael effaith gadarnhaol neu effeithiau mwy cadarnhaol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg gan geisio sicrwydd nad yw'r fframwaith yn cael unrhyw effeithiau negyddol ar y cyfleoedd hyn.**

O'r rhai a ymatebodd i'r cwestiwn hwn, roeddent yn cydnabod pwysigrwydd cyfathrebu a gwybodaeth dwyieithog yn gyffredinol. Nodwyd manylion gofynion y Gymraeg yn y fframwaith terfynol.

| |
|---|
| Byddai sicrhau bod cymorth yn cael ei ddarparu drwy gyfrwng y Gymraeg… yn lliniaru unrhyw rwystrau posibl i ymgysylltu yn llawn â'r pecyn cymorth ac yn rhoi cysur bod yr unigolyn sy'n cael ei effeithio yn cael ei glywed a'i ddeall. **Canolfan Gweithredu ar Ddibyniaeth a Chaethiwed Cymru #5**<br><br>…byddai unigolion sydd â'r Gymraeg fel eu hiaith gyntaf yn llawer mwy cyfforddus yn derbyn cymorth yn yr iaith hon ac yn fwy parod i rannu gwybodaeth ar lefel fwy dwys, yn enwedig pan ystyrir y materion gwybyddol sy'n gysylltiedig ag ARBD. Gallai effeithiau negyddol methu â derbyn cymorth yn yr iaith y mae'n ei ffafrio atal yr unigolyn rhag ymgysylltu yn llawn â'r cymorth sy'n cael ei ddarparu ac effeithio yn sylweddol ar ei ddealltwriaeth a chanlyniad cyffredinol yr ymyrraeth. **Canolfan Gweithredu ar Ddibyniaeth a Chaethiwed Cymru #5** |

**Cwestiwn 11 – rhoddodd hwn gyfle i'r ymatebwyr roi sylw i unrhyw faterion y tu allan i'r cwestiynau a ofynnwyd.**

Roedd mwyafrif llethol yr ymatebion i'r cwestiwn hwn yn gadarnhaol.

| |
|---|
| Rydym yn croesawu'n fawr yr ymrwymiad eglur hwn gan Lywodraeth Cymru i fynd i'r afael ag anghenion pobl â niwed i'r ymennydd sy'n gysylltiedig ag alcohol a'u teuluoedd. Rydym yn gobeithio'n fawr y bydd y Fframwaith Triniaeth hwn yn ddechrau pennod newydd i bobl yng Nghymru sy'n byw gydag ARBD, a hefyd yn sbardun i weinyddiaethau eraill y DU lunio fframweithiau tebyg. **Alcohol Change UK #1**<br><br>Mae gwir angen y ddogfen ddrafft hon ac fe'i croesewir yn fawr i alluogi dull cyson yn seiliedig ar arfer gorau a chanllawiau NICE… dylid ystyried y goblygiadau o ran adnoddau i fwrw ymlaen â'r argymhellion i ddiwallu anghenion y garfan hon o unigolion yn ofalus iawn…. **Bwrdd Cynllunio Ardal Cwm Taf Morgannwg #3**<br><br>Ar y cyfan, rydym yn croesawu yn fawr yr adroddiad hwn a'i gyfraniad mawr at agwedd ar niwed sy'n gysylltiedig ag alcohol a esgeuluswyd… Mae angen cynyddu ymwybyddiaeth glinigol…ynghyd â datblygu sgiliau a chymhwysedd yn y gweithlu i sicrhau'r ddarpariaeth o ofal priodol sy'n canolbwyntio ar y claf… Ond mae'r adroddiad hwn yn floc adeiladu o'r radd flaenaf a gobeithiwn y bydd gwledydd eraill yn y DU yn dilyn yr esiampl a roddwyd gan Lywodraeth Cymru trwy lunio'r fframwaith gwerthfawr hwn. **Alcohol Health Alliance UK #8** |

## Y Camau Nesaf

O werthuso'r ymatebion ymgynghori, diweddarwyd y fframwaith i gynnwys sylwadau ac argymhellion, lle bo'n briodol, gan bob un o'r 11 o ymatebwyr.

Codwyd themâu allweddol yn ymwneud â hyfforddiant, codi ymwybyddiaeth, darparu adnoddau a gweithredu. Bydd angen rhoi ystyriaeth bellach i sicrhau'r ddarpariaeth fwyaf priodol o wasanaethau ARBD yn y sefyllfa ariannol heriol sydd ohoni. Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i weithio gyda'i phartneriaid ar y ffordd orau o gyflawni hyn.